# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 11 Ebrill 2013 i'w hateb ar 16 Ebrill 2013

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**: Pa rai o'r argymhellion yn adroddiad Francis y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried? OAQ(4)0996(FM)

**2. Sandy Mewies (Delyn)**: A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mesurau ataliol a gymerwyd yn dilyn yr achosion diweddar o'r frech goch? OAQ(4)1002(FM)

**3. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**: Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â'i alwad am Gonfensiwn Cyfansoddiadol ar gyfer y DU? OAQ(4)1001(FM)

**4. Eluned Parrott (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am amseroedd aros am ambiwlans yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0990(FM)

**5. Alun Ffred Jones (Arfon)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatgan ei resymau dros drosglwyddo gwasanaethau gofal dwys i fabanod newydd-anedig yng ngogledd Cymru i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn Lloegr? OAQ(4)0993(FM)**W**

**6. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau iechyd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0988(FM)

**7. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effeithiau torri cyfradd uchaf y dreth incwm ar deuluoedd yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)0989(FM)

**8. Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r cymorth sydd ar gael ar gyfer gwella gwasanaethau band eang i fusnesau yng ngogledd-ddwyrain Cymru? OAQ(4)0998(FM)**W**

**9. Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith Dechrau'n Deg? OAQ(4)1000(FM)

**10. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lygredd amgylcheddol yng Nghilfach Tywyn? OAQ(4)0987(FM)

**11. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y modd y rheolir y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru. OAQ(4)0997(FM)

**12. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i wella trafnidiaeth yng Nghymru? OAQ(4)0994(FM)

**13. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gynorthwyo ffermwyr y mae'r tywydd garw diweddar wedi effeithio arnynt? OAQ(4)0991(FM)

**14. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Pa drefniadau penodol a wnaed i gydlynu ymateb y sector cyhoeddus i'r eira trwm diweddar yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0992(FM)**W**

**15. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa gynnydd y gall y Prif Weinidog adrodd yn ei gylch o ran datganoli pwerau trwyddedu alcohol? OAQ(4)0995(FM)